Rhan 3 Y Camau Nesaf

Rhagarweiniad 1

Rhestr wirio gynradd ar gyfer cyflwyno ITM yng Nghyfnod Allweddol 2 2

Rhestr wirio uwchradd ar gyfer cyflwyno ITM yng Nghyfnod Allweddol 2 3

Rhestr wirio AALl ar gyfer cyflwyno ITM yng Nghyfnod Allweddol 2 4

Tabl 1 Templed trosolwg cynllun gweithredu clwstwr 5

Tabl 2a Templed cynllun gweithredu clwstwr 6

Tabl 2b Cynllun gweithredu clwstwr enghreifftiol 8

** Diweddariadau a Nodiadau*

"Mae angen inni fod yn ymroddedig ynghylch dysgu ITM ac mae angen iddyn nhw gael eu dysgu mewn amgylchedd lle mae'r plant yn ddirwystr a lle mae ganddyn nhw ddigon i'w ddweud - yn yr ysgol gynradd" **RHIANT**

Rhagarweiniad

Y camau cyntaf tuag at gyflwyno ITM yng Nghyfnod Allweddol 2 fydd codi ymwybyddiaeth o'r manteision a gynigir gan ieithoedd cynradd a chychwyn trafodaeth â staff yn yr AALl, ysgol a / neu adran ITM. Yn y Peilot, byddai hyn weithiau'n golygu bod aelod o'r adran ITM uwchradd neu ymgynghorydd AALl yn rhoi cyflwyniad byr yn ystod cyfarfod clwstwr i benaethiaid. Lle cafodd y drafodaeth hon ei chychwyn gan ysgol gynradd, gwahoddwyd pennaeth yr adran ITM uwchradd a / neu gynrychiolydd yr AALl i'r cyfarfod. Yn ystod y cyfarfod hwn cytunodd penaethiaid mewn egwyddor i gyflwyno ITM yng Nghyfnod Allweddol 2 ac mewn cyfarfodydd diweddarach roeddynt mewn sefyllfa i drafod y materion trefniadol megis cyllid, pwy fyddai yn gwneud yr addysgu, pa iaith, pa ddosbarthiadau ayb fel yr amlinellwyd yn **Rhan 1**.

Yn **Rhan 3** ceir **rhestrau gwirio** a **thempledi cynllun gweithredu clwstwr** i arwain y camau nesaf. Gellir eu defnyddio mewn cyfarfodydd fel rhestrau ticio i gofnodi cynnydd ac i hyrwyddo cynllunio yn y dyfodol.

- Mae'r **rhestrau gwirio** yn darparu nodweddion cynllunio ar gyfer y tymor byr, y tymor canol a'r tymor hir er mwyn cyflwyno ac ehangu darpariaeth ITM yng Nghyfnod Allweddol 2. Ceir rhestr wirio ar wahân i ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd ac Awdurdodau Addysg Lleol. Mae'r rhain yn cymryd i ystyriaeth faterion sy'n unigryw i amgylchiadau'r tri ond maent hefyd yn cynnwys rhai nodweddion cynllunio ar y cyd.
- Mae **Tabl 1** yn darparu templed i glystyrau fedru amlinellu trosolwg ar y cyd o'u hamcanion tymor byr, canol a hir a gellir ei ddefnyddio mewn cysylltiad â'r rhestrau gwirio.
- Mae **Tabl 2a** yn darparu templed cynllun gweithredu er mwyn i'r clwstwr fedru cynllunio'n fanylach. Mae **Tabl 2b** yn darparu enghraifft o gynllun gweithredu clwstwr, gan ddangos sut mae clwstwr newydd yn bwriadu darparu ITM ymhob ysgol gynradd o fewn eu clwstwr, sut maent yn bwriadu cyflawni hyn, y raddfa amser sydd ynghlwm wrth hyn a sut y byddant yn monitro ac yn gwerthuso'u cynnydd.

Cynllunir y tablau i'w defnyddio mewn amryw sefyllfaoedd a gellir eu haddasu ar gyfer rhesymeg ac amcanion y gwahanol glystyrau. Un fersiwn yn unig sydd eisiau ei gwblhau gan y clwstwr yn ystod cyfarfodydd cynllunio a chaiff pawb gopi ar gyfer ffeil ITM CA2-3 yr ysgol.

Rhestr wirio gynradd ar gyfer cyflwyno iaith dramor fodern yng Nghyfnod Allweddol 2

Cynllunio tymor byr	Trafodwyd cyllid rhwng penaethiaid a'r AALl.	
	Os oes gennym ryw fath o ddarpariaeth ITM yn ein hysgol (e.e. clybiau ar ôl ysgol, Comenius/cysylltiadau rhyngwladol), rydym wedi rhoi gwybod i'r adran ITM yn yr ysgol uwchradd am hyn.	
	Rydym wedi hysbysu staff, rhieni a llywodraethwyr ynghylch ein bwriad i gyflwyno ITM yng Nghyfnod Allweddol 2.	
	Mae gennym aelod staff a enwebwyd sy'n fodlon bod yn gyswllt ar gyfer ITM yn ein hysgol ac aelodau eraill o staff sy'n fodlon cymryd yr awenau petai'r athro'n gadael neu'n newid dosbarth.	
	Mae'r 5 mater trefniadol a amlinellwyd yn Rhan 1 wedi cael eu trafod mewn cyfarfod i brifathrawon ac mae penderfyniadau sy'n briodol i'r clwstwr o ysgolion wedi'u gwneud.	
	Rydym wedi mynychu cyfarfod clwstwr i'r staff gyda chynrychiolwyr o bob ysgol (gan gynnwys unrhyw arthrawon peripatetig) i drafod ein hamcanion ac rydym wedi llunio ein cynllun gweithredu clwstwr (gweler Tabl 2a a 2b).	
	Mae'r clwstwr wedi cysylltu â chefnogaeth ymgynghorol leol a/neu CILT Cymru am arweiniad, hyfforddiant a diweddariadau ynglŷn ag arfer da cyfredol, adnoddau a methodoleg (gweler Rhan 4).	
	Mae aelodau staff a enwebwyd yn cael eu rhyddhau ar gyfer digwyddiadau DPP yn ymwneud ag ITM cynradd.	
	Rydym wedi cydgynllunio'r cynllun gwaith, yn seiliedig ar y fframwaith anstatudol yn CA2 (gweler Rhan 2) ac mae gan bob ysgol dan sylw gopi. Rydym wedi edrych ar adnoddau priodol (gweler Rhan 4).	
	Rydym wedi cynnwys ITM yn ein cynlluniau pontio.	
	Mae darpariaeth ITM wedi dechrau.	
Tymor canol	Rydym wedi cytuno ar natur y wybodaeth i'w throsglwyddo i'r ysgol uwchradd (e.e. datganiadau "Gallaf…" y Cwricwlwm Cenedlaethol, Portffolio Ewropeaidd ar gyfer Ieithoedd (Iau), Ystol Ieithoedd, portffolios disgyblion, cynnwys ITM ar gofnod cyrhaeddiad).	
	Mae ein cydweithwyr uwchradd yn gweithio gyda ni i gefnogi'r defnydd o weithgareddau iaith atodol (e.e. cofrestru yn yr ITM, gwaith ategu a wneir gan athrawon dosbarth, gwaith trawsgwricwlaidd lle'n bosib, dathlu Diwrnod Ewropeaidd ar gyfer Ieithoedd - Medi 26 ayb).	
	Mae gweithgareddau pontio wedi cael eu cydgynllunio ar gyfer y clwstwr (e.e. dawnsio salsa, brecwast Ffrengig, grŵp theatr, ymweliadau blwyddyn 6 â'r ysgol gyfun, trip ayb).	
	Rydym wedi arsylwi ar wersi yn yr ysgol uwchradd er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r cyfnod allweddol arall.	
	Rydym yn cyfarfod fel clwstwr o leiaf unwaith bob tymor.	
	Mae rhieni'n cael gwybod sut mae eu plentyn yn dod yn ei flaen yn yr ITM.	
Tymor hir	Mae ITM yn rhan hanfodol o CA2 ac mae'n bwrw gwreiddiau cryf yn y cwriclwm cynradd.	
	Rydym yn derbyn adborth ynglŷn â sut mae ein disgyblion yn dod yn eu blaenau yn CA3.	
	Rydym yn rhannu arfer da ar ddulliau addysgu ieithoedd â chydlynwyr eraill yn yr ysgol (Cymraeg a Saesneg).	
	Rydym yn defnyddio cysylltiadau yn y gymuned leol gan gynnwys rhieni, busnesau lleol ac asiantaethau eraill i wella ein rhaglen ysgol.	

Rhestr wirio uwchradd ar gyfer cyflwyno iaith dramor fodern yng Nghyfnod Allweddol 2

Cynllunio tymor byr	Trafodwyd cyllid rhwng penaethiaid cynradd ac uwchradd a'r AALl.	
	Rydym yn ymwybodol o unrhyw weithgaredd ITM sy'n digwydd ymhob un o'r ysgolion cynradd sy'n ein bwydo (e.e. clybiau ar ôl ysgol, cysylltiadau Comenius/ Rhyngwladol).	
	Mae gennym aelod staff a enwebwyd yn yr adran ITM i arolygu'r prosiect a chaiff pob aelod adrannol ei gynnwys.	
	Rydym wedi cael gwybod pwy yw ein person cyswllt ymhob ysgol gynradd.	
	Mae'r 5 mater trefniadol a amlinellwyd yn Rhan 1 wedi cael eu trafod mewn cyfarfod i benaethiaid ac mae penderfyniadau sy'n briodol i'r clwstwr o ysgolion wedi'u gwneud.	
	Rydym wedi mynychu cyfarfod clwstwr i'r staff gyda chynrychiolwyr o bob ysgol (gan gynnwys unrhyw arthrawon peripatetig) i drafod ein hamcanion ac rydym wedi llunio ein cynllun gweithredu clwstwr (gweler Tabl 2a a 2b).	
	Mae'r clwstwr wedi cysylltu â chefnogaeth ymgynghorol leol a/neu CILT Cymru am arweiniad, hyfforddiant a diweddariadau ynglŷn ag arfer da cyfredol (gweler Rhan 4).	
	Mae aelodau staff a enwebwyd yn cael eu rhyddhau ar gyfer digwyddiadau DPP yn ymwneud ag ITM cynradd.	
	Rydym wedi cydgynllunio'r cynllun gwaith, yn seiliedig ar y fframwaith anstatudol yn CA2 (gweler Rhan 2) ac mae gan bob ysgol dan sylw gopi. Rydym wedi edrych ar adnoddau priodol (gweler Rhan 4).	
	Rydym wedi cynnwys ITM yn CA2 yn ein cynlluniau pontio.	
	Mae darpariaeth ITM yn CA2 wedi dechrau.	

Tymor canol	Rydym wedi cytuno ar natur y wybodaeth i'w throsglwyddo o ysgolion cynradd i'r ysgol uwchradd (e.e. datganiadau "Gallaf…" y Cwricwlwm Cenedlaethol, Portffolio Ewropeaidd ar gyfer Ieithoedd (Iau), Ystol Ieithoedd, portffolios disgyblion, cynnwys ITM ar gofnod cyrhaeddiad).	
	Rydym yn gweithio gyda'n cydweithwyr cynradd i gefnogi'r defnydd o weithgareddau iaith atodol (e.e. cofrestru yn yr ITM, gwaith ategu a wneir gan athrawon dosbarth, gwaith trawsgwricwlaidd lle'n bosib, dathlu Diwrnod Ewropeaidd ar gyfer Ieithoedd - Medi 26 ayb).	
	Mae gweithgareddau pontio wedi cael eu cydgynllunio ar gyfer y clwstwr (e.e. dawnsio salsa, brecwast Ffrengig, grŵp theatr, ymweliad blwyddyn 6 â'n hysgol, trip ayb).	
	Rydym wedi arsylwi ar wersi mewn ysgolion cynradd er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'r cyfnod allweddol arall.	
	Rydym yn cyfarfod fel clwstwr o leiaf unwaith bob tymor.	

Tymor hir	Mae cynlluniau gwaith CA3 wedi cael eu haddasu er mwyn atgyfnerthu ac adeiladu ar wybodaeth flaenorol.	
	Mae gennym gyfundrefn adrannol i gadw golwg ar gynnydd disgyblion drwy gydol CA3 ac i werthuso effaith y dechrau cynnar yn ITM.	
	Rydym yn rhoi adborth i'n cydweithwyr cynradd ynglŷn â sut mae'r disgyblion yn dod yn eu blaenau yn CA3.	
	Rydym yn rhannu arfer da ar ddulliau addysgu ieithoedd ag adrannau ieithoedd eraill yn yr ysgol (Cymraeg a Saesneg).	
	Rydym yn defnyddio cysylltiadau yn y gymuned leol gan gynnwys rhieni, busnesau lleol ac asiantaethau eraill i wella ein rhaglen ysgol.	

Rhestr wirio AALl ar gyfer cyflwyno iaith dramor fodern yng Nghyfnod Allweddol 2

Cynllunio tymor byr	Mae gennym aelod o'r tîm ymgynghorol â chyfrifoldeb penodol dros ITM.	
	Rydym wedi cynnal archwiliad o unrhyw weithgaredd ITM cynradd sydd eisoes yn bodoli yn ein hawdurdod (e.e. clystyrau Peilot CILT Cymru, darpariaeth ieithyddol sy'n bodoli'n barod, clybiau, ysgolion â phartneriaethau rhyngwladol ayb).	
	Rydym wedi manteisio ar y cyngor a'r arweiniad y gall CILT Cymru ei ddarparu o safbwynt ITM cynradd ac rydym yn ymwybodol o gyfleoedd hyfforddi ac arfer da cyfredol (gweler Rhan 4).	
	Rydym wedi codi ymwybyddiaeth o'r manteision a gynigir gan ieithoedd cynradd ac wedi mesur faint o ddiddordeb sydd gan ysgolion / clystyrau o ysgolion.	
	Rydym wedi cyfeirio ysgolion at arweiniad CILT Cymru "Dechrau'r Daith. Canllawiau ar gyfer Cyflwyno Iaith Dramor Fodern yng Nghyfnod Allweddol 2" (sydd ar gael ar ffurf CD ac yn ogystal gellir ei lawrlwytho oddi ar wefan CILT Cymru).	
	Rydym yn ymwybodol o gyfleoedd cyllido sydd ar gael i ddatblygu ITM / pontio cynradd.	
	Rydym wedi trafod y cyfleoedd cyllido hyn â penaethiaid cynradd / uwchradd / penaethiaid ITM yn ein hawdurdod.	
	Mae gennym gynllun gwario i ddatblygu ITM cynradd.	
	Mae datblygiad ITM yn rhan o'n Cynlluniau i Blant a Phobl Ifainc gan dynnu ar brofiad ac arbenigedd ysgolion sydd ynghlwm wrth Beilot CILT Cymru.	
	Rydym wedi hwyluso cynlluniau i ryddhau staff ysgol i fynd i gyfarfodydd cynllunio cychwynnol a rhai clwstwr parhaol.	
	Rydym wedi cynllunio hyfforddiant a mesurau eraill a fydd yn cefnogi'r gweithgaredd hwn (e.e. ar y cyd â'r ymgynghorydd ITM lleol / ymgynghorwyr CILT Cymru).	
Tymor canol	Mae gennym set o feini prawf a ddefnyddir i fonitro cynnydd y Cynlluniau i Blant a Phobl Ifainc.	
	Mae gennym set o feini prawf a ddefnyddir i fonitro gwariant a'r effaith ar safonau (e.e. trwy gyfarfodydd rheolaidd â'r Swyddog Gwella Ysgolion, ymgynghorydd ITM, cydlynwyr pontio, penaethiaid a staff ITM).	
	Rydym yn hwyluso rhwydweithiau arfer proffesiynol rhwng ysgolion, gan alluogi staff i rannu arfer da a gwaith arloesol ym maes ITM cynradd.	
Tymor hir	Rydym yn ehangu cefnogaeth ar gyfer gweithio ar y cyd i ddatblygu ITM yn CA2 ar draws ysgolion.	
	Rydym yn cynnig y cyfle hwn i bob disgybl yn CA2 yn yr AALl.	
	Rydym yn sefydlu arbenigedd mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yn yr awdurdod i gynnal ITM cynradd a sicrhau y cynhelir didorredd dysgu rhwng CA2 a CA3.	

Tabl 1 Trosolwg Cynllun Gweithredu Clwstwr: CA2-3 Ieithoedd Tramor Modern

Dyddiad:

Amcan(ion) tymor byr:	Graddfa amser:
Amcan(ion) tymor canol:	
Amcan(ion) tymor hir:	

Tabl 2a Cynllun Gweithredu Clwstwr: CA2-3 Ieithoedd Tramor Modern

Graddfa amser:

Blaenoriaeth:	
Rhesymeg:	**Tystiolaeth:**
Amcan(ion):	

Tabl 2a (parhad)

Meini prawf llwyddiant:	Tystiolaeth:
Dyddiadau allweddol:	**Pryd?**

Tabl 2b: Cynllun Gweithredu Clwstwr Enghreifftiol: CA2-3 Ieithoedd Tramor Modern

Graddfa amser:

Blaenoriaeth: *Darparu ITM i ddisgyblion ym Mlwyddyn 6 / Blynyddoedd 5 + 6 / o Flwyddyn 3 ymhob ysgol gynradd o fewn y clwstwr.*

Rhesymeg:

Cyfoethogi'r cwricwlwm CA2 trwy:

- *feithrin agwedd bositif tuag at ddysgu iaith, amrywiaeth a diwylliannau eraill;*
- *ddatblygu ymwybyddiaeth Ewropeaidd disgyblion a'u hymdeimlad â dinasyddiaeth fyd-eang;*
- *ddatblygu strategaethau disgyblion i ddysgu iaith;*
- *godi lefelau cyrhaeddiad mewn llythrennedd, meddwl a chyfathrebu ymhlith disgyblion o bob gallu.*

Ategu'r cwricwlwm CA3 trwy:

- *wella trefniadau pontio;*
- *godi lefelau cyrhaeddiad mewn ITM yn CA3 yn nes ymlaen.*

Tystiolaeth

Arolwg clwstwr o amcanion bob tymor.

Arolwg clwstwr o'r cynllun gweithredu bob blwyddyn.

Amcan(ion)

Sefydlu clwstwr ar gyfer ITM (gweler arweiniad CILT Cymru Dechrau'r Daith, Rhan 1: Gwneud iddo ddigwydd, Rhan 3: Y camau nesaf.)

Staff allweddol i fynychu hyfforddiant (e.e. CILT Cymru, AALl, hyfforddiant o fewn yr ysgol).

Cydgynllunio cynllun gwaith (gweler fframwaith anstatudol CA2 ar gyfer ITM + Dechrau'r Daith, Rhan 2: Arfer da.)

Cydgytuno ar drefn trosglwyddo gwybodaeth am gynnydd disgyblion (gweler Croesi Pontydd + Dechrau'r Daith, Rhan 2: Ardal 2).

Dechrau addysgu.

Cynnal digwyddiad pontio ITM i ddisgyblion Blwyddyn 6 yn y clwstwr.

Cynnal cyfarfodydd cynllunio ac arolygu.

Tabl 2b (parhad)

Meini prawf llwyddiant: *Sefydlwyd clwstwr ITM cynradd / uwchradd.* *Mynychwyd hyfforddiant.* *Gweithredwyd cynllun gwaith sy'n adlewyrchu'r sail resymegol y cytunwyd arni.* *Darparwyd ITM drwy gydol y clwstwr.* *Cynhaliwyd digwyddiad pontio ITM i'r clwstwr.* *Cyfarfodydd cynllunio ac arolygu ar y cyd bob tymor.* *Trosglwyddwyd gwybodaeth am gynnydd disgyblion i gydweithwyr uwchradd.*	**Tystiolaeth:** *Adborth gan:* • *staff;* • *grwpiau ffocws disgyblion CA2 a holiaduron;* • *gyfarfodydd clwstwr;* • *ddigwyddiad hyfforddi.* *Adborth i:* • *rieni a llywodraethwyr;* • *gyfarfodydd grŵp y cwricwlwm;* • *y cyswllt yn yr AALl.*
Dyddiadau allweddol: *Cyfarfod cynllunio cychwynnol.* *Cyfarfodydd clwstwr.* *Hyfforddiant staff.* *Digwyddiad pontio ITM i ddisgyblion.* *Cyfarfod i arolygu'r cynllun gweithredu.*	**Pryd?**

Diweddariadau a Nodiadau

Cafodd yr adran hon ei chreu er mwyn ichi fedru storio'ch nodiadau a'ch cofnodion eich hun.